

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 16eg o Hydref 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Iwan Foulkes , Hedd Pugh, Idris Jones, Geraint Morgans, John P Jones, Catrin Jones, Berwyn Harding, Robin Hughes, Sion Alun Roberts, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Berwyn Hughes ac Arfon Hughes.

1. Estynwyd groeso cynnes i ddau aelod newydd i'r Cyngor, sef Robin Hughes i Ward Dinas, a Sion Alun Roberts i Ward Llanymawddwy.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod o'r 4ydd o Fedi fel rhai cywir ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan Idris Jones.

3. Materion yn codi .

- a) **Ffens derfyn rhwng mynwent Llanymawddwy a thir ochr ucha'r fynwent**, a'r angen am welliant. Adroddodd y Cyng Hedd Pugh am amcangyfrif i law gan Dafydd Brynson, sef cyfanswm o £370 a TAW. Cytunwyd i fynd ymlaen efo hyn.
- b) Darllenwyd ymateb pellach gan Merfyn Wyn Morris o **Adran Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** ynglyn a'r materion a ddanfonwyd atynt. Nodwyd mai nid gwifren teliffon oedd y pryder, ond y ceblau o hen sustem teledu y Dinas. Nodwyd hefyd ymateb Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i'r materion a godwyd. Nodwyd fod gan Campervans hawl i barcio yn Lawnt y Plas gan ei bod yn cael ei ystyried yn briffordd cyhoeddus. Roedd angen fodd bynnag i gadw golwg ar y sefyllfa. (Cafwyd mynegiant o ddiddordeb gan y Cyng. Hedd Pugh)
- c) **Canclwm Siapan** – adroddodd y Clerc fod Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri wedi dweud fod staff yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio 'drone' i wneud arolwg o'r sefyllfa, ac y byddai yn dychwelyd atom.
- d) **Ffordd Deunant** – adroddwyd fod y gwaith bellach wedi ei gwblhau.
- e) Cyfeiriwyd at y llain o dir o dan y fynwent yn y Dinas, sef o dan y darn newydd a wnaethpwyd yno. Roedd angen symud y ffens, a'i rhoi lle mae'r rael fel bod defaid yn pori ar y llain yma o dir. Roedd angen cael amcangyfrifon, a phenderfynwyd gofyn i Dafydd Brynson a Geraint Troedyrhiw. Gofynwyd i'r Cadeirydd, Hedd Pugh a'r Clerc i'w cyfarfod yno.
- f) Roedd y Cyng. Idris Jones wedi cwblhau y gwaith ar 4 mainc yn yr ardal, a diolchwyd yn fawr iawn iddo am ei waith.
- g) Nodwyd wybodaeth gan Arfon Hughes yn dweud fod y bwrdd gwybodaeth a oedd wedi ei daro i lawr yn Mallwyd wedi ei gasglu gan Hefin Pugh, a'i fod yn Bronhaul dros dro.

4. Ystyried trefniadau gwefan Cyngor Cymuned Mawddwy.

Cyfeiriwyd at e-bost y Clerc i'r holl gynghorwyr dyddiedig Medi 17eg, ynglyn a gwefan y Cyngor Cymuned. Roedd y mater hefyd wedi ei godi mewn nodyn a oedd wedi ei adael gan y Cyng Arfon Hughes i bawb o'r Cynghorwyr a'r Clerc yn ystafell gyfarfod y Cyngor ymlaenllaw. Ar y pwynt hwn cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng. Catrin Jones a gadawodd yr ystafell.

Ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan John P Jones, penderfynwyd i wneud y rhan yma o'r cyfarfod yn un caeedig yng nghwyneb sensitifrwydd a chyfrinachedd y sefyllfa. Yng nghwyneb hyn, bu i'r Cyng John P Roberts (Cyngor Gwynedd) adael yr ystafell.

Yna aethpwyd ymlaen i weddill y cyfarfod, a'i ail-agor am 8.50pm.

Un mater pellach o wybodaeth yn y llythyr oedd i law gan y Cyng. Arfon Hughes oedd yng nghyswllt coeden nadolig. Roedd Gwawr Davalan wedi holi am Goeden Nadolig ar gyfer noson garolau Yr Urdd, a gofyn i'r Cyngor drefnu hyn gan nad oedd yn sicr y byddai yn gallu gwneud eleni. Roedd gwahoddiad i'r Cyngor yrru cynrychiolydd ac i bob cynghorydd ddod i'r noson. Dyddiad i'r gadarnhau diwedd Tachwedd/dechrau Rhagfyr.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd gofyn i Geraint Gwanas eto eleni i gael coeden, a byddai'r Clerc yn cysylltu. Cynigiodd Cyng Hedd Pugh i'w moen i Gwanas os oedd angen. O ran y goleuadau, cynigiodd Cyng. Hedd Pugh, Idris Jones a Catrin Jones i gynorthwyo ymhob ffordd i drefnu hyn.

Un mater arall yn llythyr Cyng. Arfon Hughes oedd yng nghyswllt giat yr Ysgol, sef ei bod yn cael ei chloi, a bod trafndiaeth i'r Ysgol yn gorfod rifysio ga greu trafferth. Roedd yn gofyn a oedd posib i'r Cyngor Cymuned ofyn am gael mynediad i'r buarth gan yr Ysgol er mwyn gallu trigolion, loriau dosbarthu a'r gwasanaethau argyfwng fedru troi.

Penderfynwyd mae'r cyfan a allem ni ei wneud fel Cyngor Cymuned yw tynnu sylw Cyngor Gwynedd i hyn, ac na allwn ymyrryd fel Cyngor Cymued. Hefyd, addawodd y Cadeirydd Cyng. Iwan Foulkes godi hyn mewn cyfarfod o Lywodraethwyr Ysgol Bro Idris.

5. Materion Cynllunio.

Roedd un cais cynllunio i'w ystyried, sef adeiladu ty deulawr ar dir ger Tan yr Allt, Dinas Mawddwy. Penderfynwyd fod y Cyngor yn gefnogol l'r cais, oherwydd roedd o fewn terfyn y pentref, ac yn safle oedd yn barod l adeiladu ty. (Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cadeirydd Iwan Ll. Foulkes a gadawodd yr ystefell)

Roedd y cais hwn wedi ei ddanfod drwy'r post, a chadarnhaodd y Clerc ei fod wedi atgoffa y Parc Cenedlaethol o gael y rhain wedi eu danfon drwy'r e-bost – er mwyn hwyluso ymgynghori gyda Chynghorwyr os nad oedd cyfarfod o'r Cyngor o fewn 21 diwrnod l dderbyn y cais. Roedd ymddiheuriad wedi ei ddanfod gan y Parc Cenedlaethol, gyda sicrwydd y byddai y ceisiadau yn cael eu danfon drwy'r e-bost l'r dyfodol.

6. Materion Cyllid.

Roeddun cais am arian I law, sef gan Ysgrifennydd Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020 yn Caerberllan, Abergynolwyn. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Roedd y Gwaith gyda chyfrifon 2018-19 wedi eu cwblhau, ac roedd y rhybudd arferol wedi ymddangos ar hysbysfwrdd y Neuadd yn y Dinas.

Adroddwyd balansau y cyfrifon banc sydd gan y Cyngor er gwybodaeth y Cynghorwyr. Adroddwyd hefyd bod y mandate wedi cael ei newid fel bod Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor yn arwyddo.

7. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd at nodyn gan Bethan Roberts o Gyngor Gwynedd yn dweud mai y cyswllt newydd gyda cynllun partneriaethau toiledau cyhoeddus yw Amanda Murray.
- b) Adroddwyd am Strategaeth Amgylcheddol hirdymor Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru, ar cyfle i roi sylwadau.
- c) Nodwyd fod Mantell Gwynedd yn trefnu Cymorthfa Cyllid gyda swyddog y Loteri Genedlaethol ar y 18fed o Hydref yn Swyddfa Mantell Gwynedd, Dolgellau – roedd manylion wedi ei roi ar hysbysfwrdd y neuadd yn y Dinas.
- d) Nodwyd fanylion am gynhadledd ‘Sut y gallwn i gyd gyfrannu at Brydain Digarbon’ yn Portmeirion ar y 13eg o Dachwedd.
- e) Nodwyd lythyr gan Mabon ap Gwynfor, Ymgeisydd Plaid Cymru i'r Cynulliad yn Dwyfor Meirionnydd yn nodi yr angen am ganolfan ddeagnosis cancer yng Ngwynedd, ac yn gofyn am gefnogaeth i'r alwad yma. Cytunwyd i hyn.
- f) Nodwyd e-bost gan y Cyng. Arfon Hughes yn gofyn am yrru copiau o'r 'canllaw i gynghorwyr' gan Un Llais Cymru i'r ddau gynghorydd newydd. Adroddodd y Clerc am yr holl wybodaeth oedd wedi ei roi iddynt eisoes, yn cynnwys copi o'r cod ymddygiad, canllawiau'r ombwdsman ayyb, ac y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei yrru yn fuan.
Yn y cyswllt hwn, rhoddodd y Clerc adroddiad a braslun o waith y Cyngor Cymuned, gan gynnwys dyddiadau y cyfarfodydd, cyfrifoldeb am y mynwentydd, materion ariannol, cynllunio ayyb a chyfrifoldebau y cynghorwyr a'r Clerc.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Roedd dwr yn sefyll ar y ffordd gyhoeddus yn Dolybont ac angen sylw.
- b) Roedd angen ail-baentio y llinellau ar y ffordd ger Canolfan Arddio Camlan, gan fod perygl i ddefnyddwry ffordd.
- c) Roedd dwr yn dod lawr y ffordd ger y grid gwarthegar Bwlch y Groes.
- d) Adroddwyd yn fyr gan Cyng. John P Roberts y sefyllfa ddiweddaraf gyda cais llinell feibr i Lanymaddwy, a bod y contract gan Gwmni Nod Glas i'w arwyddo.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 4ydd Rhagfyr yn Neuadd Aberangell am 7.30 O'R GLOCH.